

# Pontio



**Arweiniad i'r Broses Bontio  
i bobl ifanc ag anableddau a'u gofalwyr**

Tachwedd 2019



Rydym yn defnyddio 10 canlyniad i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud gwaith da i bobl. Maent yn dod gan y Sefydliad Anableddau Dysgu Prydeinig (BILD) ond maent yn berthnasol i bawb.




### Dylai pobl allu dweud:

1. Rydw i'n gwneud dewisiadau bob dydd

2. Rydw i'n gwneud penderfyniadau pwysig am fy mywyd



3. Mae pobl yn fy nhrin â pharch



4. Rydw i'n cymryd rhan mewn gweithgareddau bob dydd

5. Mae gennyf gyfeillion a pherthnasoedd



6. Rydw i'n rhan o fy nghymuned leol

7. Rydw i'n cael siawns i weithio



8. Mae pobl yn gwrando ar farn fy nheulu

9. Rydw i'n cael fy niogelu rhag bwlio a chamdriniaeth



10. Rydw i'n cael help i fod yn iach

## Beth yw Pontio i Bobl Ifanc?



Mae'n golygu gadael yr ysgol a symud i goleg neu brifysgol neu swydd.



Mae'n golygu gwneud mwy o ffrindiau a pherthnasoedd.

Mae'n golygu symud ymlaen!

I rywun ifanc ag anableddau, gall hyn hefyd olygu symud o'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant i'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion.

Rydym yn galw'r newidiadau hyn yn **Bontio**.



Gall newidiadau mewn bywyd achosi straen i unrhyw un. Mae llawer o benderfyniadau i'w gwneud ac ambell waith gall gwneud dewisiadau fod yn beth anodd a dychrynlyd.



Trwy ddechrau meddwl am bontio'n gynnar, bydd yn haws gwneud cynlluniau. Dylech ddechrau cynllunio ymhell cyn i chi adael yr ysgol.



Gall pontio fod yn gyffrous. Mae pobl ar gael i'ch helpu i ddod o hyd i wybodaeth a gwneud cynlluniau.



Rydych yn oedolyn pan ydych yn 18 oed.



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dosbarthu canllaw ar Bontio a sut y dylai pobl ifanc a'u rhieni a'u gofalwyr fod yn rhan o'r broses o wneud dewisiadau eu hunain.

## Dyma rai cwestiynau i feddwl amdanynt cyn i chi ddechrau cynllunio.



- Pwy hoffwn ei gael i'm helpu i wneud hyn?
- Sut allaf fod yn fwy annibynnol?




- Sut allaf ddweud wrth bobl beth sydd ei eisiau arnaf?



- Beth hoffwn ei wneud mewn 5 mlynedd?
- A oes gennyf anghenion iechyd i'w hystyried?



- Faint o arian fydd gennyf a phwy all fy helpu i gadw trefn arno?



- Ble ydw i am fyw?



Mae angen i chi ddechrau cynllunio ar gyfer bod yn oedolyn yn gynnar.



## Cyfarfod Cynllunio Pontio



Pan fyddwch yn 14 oed, bydd pobl yn dechrau trafod gyda chi beth yr hoffech ei wneud ar ôl gadael yr ysgol.

Bydd eich Pennaeth yn gofalu fod hyn yn digwydd yn eich Adolygiad Ysgol Blynyddol ym mlwyddyn 9.



Bydd eich ysgol yn eich helpu i ysgrifennu'ch Cynllun Pontio.

Bydd pobl eraill sy'n dod i'ch Adolygiad yn gallu'ch helpu i'w ysgrifennu hefyd.

Bydd eich **Cynllun Pontio** yn:



- Sôn amdanoch yn tyfu
- Nodi pethau yr ydych yn eu hoffi a phethau nad ydych yn eu hoffi
- Nodi pa help y gallai fod ei angen arnoch i ofalu amdanoch eich hun
- Nodi pa help y gallai fod ei angen arnoch i fynd o gwmpas
- Nodi sut ydych yn **cyfathrebu** – mae cyfathrebu'n golygu sut ydych yn dweud wrth bobl beth yr ydych yn ei hoffi neu beth sydd ei eisiau arnoch
- Nodi beth ydych yn gallu ei wneud yn dda
- Sôn am yr arian a'r budd-daliadau sydd gennych
- Sôn am eich iechyd
- Sôn am eich cartref

Bydd eich Cynllun Pontio yn helpu i redeg pethau'n esmwyth.

Bydd yn nodi beth fydd pawb sy'n gweithio gyda chi yn ei wneud.

Bob blwyddyn, bydd eich Pennaeth yn edrych ar eich Cynllun Pontio gyda chi i ofalu ei fod yn dal i ddweud beth sydd ei eisiau arnoch.



## Pobl a allai fod yn eich cyfarfod cynllunio pontio



Dylai'r rhan fwyaf o'r bobl hyn fod yn eich cyfarfod. Byddant yno i'ch cefnogi trwy'r cyfnod pontio.



**Pennaeth:** Bydd yn gofalu eich bod yn cael Cyfarfod Cynllunio Pontio pan ydych ym mlwyddyn 9. Bydd yn gofalu eich bod yn cael adolygiad bob blwyddyn ar ôl hynny pan ydych yn yr ysgol. Bydd hefyd yn gwirio bod eich athro/athrawes yn gwybod beth yr ydych am ei ddysgu wrth i chi fynd yn hŷn.



**Teulu / Gofalwr:** Gallant eich helpu i benderfynu beth ydych am ei wneud a'ch helpu i wneud dewisiadau.



**Gweithiwr Cymdeithasol:** Bydd yn cyfarfod gyda chi i ganfod mwy amdanoch ac i ddweud wrthy'ch a ydynt yn gallu'ch helpu. Mae hyn yn cael ei alw yn asesiad.



**Staff Iechyd:** Os oes gennych anghenion iechyd, bydd angen iddynt gynllunio ar gyfer yr anghenion hynny pan ydych yn oedolyn

**Seicolegydd Addysg:** Mae angen i Seicolegydd Addysg fod yn rhan o'r cynllun i ddod o hyd i ffyrdd o'ch helpu wrth i chi fynd yn hŷn.



**Cynghorwyr Gyrfaoedd:** Byddant yn trafod gyda chi beth hoffech ei wneud ar ôl gadael yr ysgol. Mae ganddynt lawer o syniadau a dewisiadau ynglŷn â'r hyn sydd yn eich ardal.





**Staff Coleg neu Brifysgol:** Gallant roi gwybod i chi pa gyrsiau sydd ar gael mewn colegau neu brifysgolion. Gallwch ymweld â cholegau neu brifysgolion i ganfod a ydych am fynd i un.



**Eiriolwr:** Rhywun sy'n siarad gyda chi ac yn rhoi gwybod i bawb arall beth sydd ei eisiau arnoch os ydych yn nerfus wrth siarad.

**Cydgysylltydd Pontio:** Rhywun sy'n gweithio gyda phobl ifanc ag anableddau dysgu pan fo newidiadau mawr yn digwydd yn eu bywydau. Byddant yn siarad gyda chi am y newidiadau ac yn rhoi gwybodaeth i chi. Byddant yn siarad gyda phobl eraill a allai'ch helpu.

**Asiantaethau darparwyr:** Gall y bobl hyn siarad gyda chi am y gwasanaethau sydd ar gael i bobl ifanc ac oedolion. Rhaid i'r gwasanaethau hyn ddiwallu'r anghenion y mae'r gweithiwr cymdeithasol yn dweud sydd gennych. Gallent gynnwys gwasanaethau dydd, gwasanaethau cyflogaeth, gwyliau byr a chymorth i'ch gwneud yn fwy annibynnol yn eich cartref.



Mae'n bosibl y bydd pobl eraill yn eich cyfarfodydd hefyd. Gallwch ofyn iddyn nhw pwy ydyn nhw a beth maen nhw'n ei wneud.

## Tyfu'n oedolyn



Yn y chweched dosbarth, bydd gweithiwr cymdeithasol o'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion yn cyfarfod â chi i greu asesiad. Bydd eich asesiad yn rhoi gwybod i ni gyd a allwn ni eich helpu.

Byddwn yn sôn wrthy ch am y gwasanaethau y byddwch efallai'n gallu eu cael. Mae'n bosibl y bydd raid i chi dalu am y gwasanaethau hyn pan fyddwch yn oedolyn.



Byddwn yn gofalu eich bod yn cael yr help cywir i ddod o hyd i unrhyw fudd-daliadau y mae gennych hawl iddynt. Gweler ein taflenni "Taliadau am Ofal yn y Cartref".



Byddwn yn rhoi gwybodaeth i chi am y gwasanaethau i oedolion.



Os gallwn eich helpu, byddwn yn cytuno beth fyddwn i gyd yn ei wneud ac yn ei gofnodi mewn **Cynllun Gofal**.

Os na allwn helpu, byddwn yn rhoi gwybod i chi pam ac yn dweud wrthy ch pwy fydd efallai yn gallu'ch helpu.

Byddwn yn edrych ar eich Cynllun Gofal o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae hyn yn cael ei alw'n **adolygiad**. Os ydym yn cytuno bod eich anghenion wedi newid, byddwn yn ysgrifennu Cynllun Gofal arall.

Hyd yn oed os ydych yn gadael yr ysgol yn gynnar ac yn mynd i goleg, bydd pobl yn siarad gyda chi ynglŷn â'ch cynlluniau a phwy allai'ch helpu.



## Gofalwyr



Mae pontio'n arwain at newidiadau i chi yn ogystal â'r unigolyn ifanc. Pan fyddant yn 18 oed, mae'r gyfraith yn dweud bod y sawl yr ydych yn gofalu amdano/amdani yn oedolyn.

- Mae hyn yn golygu fod ganddynt wahanol hawliau
- Gallant wneud eu penderfyniadau eu hunain am eu bywyd, arian a lle maent am fyw
- Gellir talu budd-daliadau'n uniongyrchol iddynt
- Gallant bleidleisio



Mae pobl ar gael i siarad â nhw ynglŷn â sut y bydd y newidiadau hyn yn effeithio arnoch ac i'ch cynorthwyo i gynllunio ar gyfer y dyfodol.



Mae gennych hawl i gael Asesiad Gofalwyr. Gallwch siarad gyda staff o'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion am hyn.

Mae gan ofalwyr dan 18 oed hawl i gael Asesiad Gofalwyr Ifanc gan y Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant.

## I gael help a chyngor:

Os ydych dan 18 oed (neu dan 19 oed os oes gennych anabledd dysgu) gallwch gysylltu â:



CIDS – Gwasanaeth Anabledd Integredig i Blant  
Canolfan Blant Sir y Fflint  
Tŷ Catherine Gladstone,  
Hawarden Way, Mancot, CH5 2EP

**☎01244 538883**



Gwasanaethau Cymdeithasol Plant  
County Offices, Chapel Street, Y Fflint, CH6 5BD

**☎01352 701000**

Os ydych dros 18 oed (neu dros 19 oed os oes gennych anabledd dysgu) gallwch gysylltu â:



Gwasanaethau Cymdeithasol  
Single Point of Access  
Preswylfa, Hendy Road, Mold, CH7 1PZ  
E-mail: [spoa@flintshire.gov.uk](mailto:spoa@flintshire.gov.uk)

**☎ 03000 858 858**



**Y rhif y tu allan i oriau yw 0845 0533116**

Gwefan: [www.siryfflint.gov.uk/pontio](http://www.siryfflint.gov.uk/pontio)



Gwasanaeth Gwybodaeth Gofalwyr Gogledd-ddwyrain  
Cymru

28-44 Stryd Newydd, Yr Wyddgrug, CH7 1NZ

**☎01352 752525**

Gwefan: [www.carers.org/local/wales/flintshire](http://www.carers.org/local/wales/flintshire)



Gyrfa Gogledd-ddwyrain Cymru, Adeilad Dewi Sant,  
Sgwâr Daniel Owen, Heol yr Iarll, Yr Wyddgrug, Sir y  
Fflint CH7 1DD. **☎08000 284844** [www.careerswales.com](http://www.careerswales.com)

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â 03000 858 858 i gael fersiwn Saesneg.  
This document is available in English. Please contact 03000 858 858 for an English version.